



Prif Weithredwyr a Phenaethiaid Cynllunio  
Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru

27 Mawrth 2020

Annwyl Gyfeillion

## **CORONAFEIRWS COVID 19 – CYFLWYNO HAWLIAU DATBLYGU A GANIATEIR NEWYDD AR GYFER AWDURDODAU LLEOL**

Mae'r llythyr hwn yn egluro'r newidiadau i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 ("GDPO").

Mewn ymateb i'r heriau eithriadol a wynebir o ganlyniad i COVID-19, mae disgwyl i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Cymru) 2002 ("y Gorchymyn Diwygio") ddod i rym ganol nos ar 30 Mawrth 2020.

Mae'r Gorchymyn Diwygio'n mewnosod Rhan 12A (Datblygiad Brys gan Awdurdodau Lleol) newydd i Atodlen 2 y GDPO, sy'n caniatáu i awdurdodau lleol ymgymryd ag unrhyw ddatblygu, fel y diffinnir gan adran 55 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ar dir sy'n eiddo i'r awdurdod lleol neu'n cael ei lesio, ei feddiannu neu ei gynnal ganddo, at y dibenion canlynol:

- a) atal argyfwng;
- b) lleihau, rheoli neu leddfu effeithiau argyfwng;
- c) cymryd camau eraill mewn cysylltiad ag argyfwng.

At y dibenion hyn, mae argyfwng yn ddigwyddiad neu'n sefyllfa a allai achosi niwed difrifol i les pobl mewn lle yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn cynnwys y pandemig COVID-19.

Mae'r datblygu a ganiateir yn ddarostyngedig i amodau sydd hefyd wedi'u hamlinellu yn y Rhan 12A newydd. Os yw awdurdod lleol yn cynnig datblygiad mewn parc cenedlaethol, rhaid iddo hysbysu'r awdurdod parc cenedlaethol (fel yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer yr ardal dan sylw) am y datblygiad hwnnw cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

Mae amod pellach yn cyfyngu ar gyfnod cadw'r datblygiad o dan y rhan newydd hon i ddeuddeg mis gan ddechrau ar y dyddiad y gwnaeth y datblygu ddechrau. Cyn diwedd y cyfnod hwn, rhaid i adeiladau, strwythurau a godwyd neu waith arall gael eu tynnu i lawr a rhaid unrhyw ddefnydd ohonynt ddod i ben. Rhaid i'r tir gael ei adfer i'w gyflwr blaenorol neu

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

i gyflwr arall fel y cytunir arno'n ysgrifenedig rhwng yr awdurdod cynllunio lleol a'r datblygwr. Bydd rhaid cael cytundeb ysgrifenedig mewn amgylchiadau lle mae natur y datblygiad wedi newid y safle i'r graddau ei fod yn ymarferol ei adfer i'w gyflwr blaenorol. Mewn achosion lle bwriedir cadw'r datblygiad am fwy na 12 mis, byddaf yn disgwyl i gais cynllunio gael ei gyflwyno yn y ffordd arferol. Bydd hyn wedyn yn golygu bod modd cynnwys y cyhoedd yn y broses o ystyried y rhinweddau cynllunio ar gyfer cadw'r datblygiad yn y lleoliad dan sylw.

Yn ystod argyfwng, mae angen i lywodraeth leol ymateb i sefyllfaoedd sy'n newid yn gyflym er mwyn diogelu iechyd pobl. Mae'r hawliau datblygu a ganiateir newydd wedi'u cyflwyno er mwyn sicrhau bod unrhyw waith datblygu'n cael ei wneud mewn ffordd gyfreithlon gan osgoi'r oedi a fyddai'n anochel wrth ystyried cais cynllunio. Yn yr argyfwng presennol, mae'r mesurau hyn yn galluogi'r awdurdodau lleol i ymgymryd â datblygu angenrheidiol yn ddi-oed, gan gefnogi cymunedau lleol, helpu i ddiogelu'r GIG ac achub bywydau.

Yn gywir



**Julie James AC/AM**  
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol  
Minister for Housing and Local Government